"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1875. [RHIF 34.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Haues Merthyrdod William Hunter	317
Handel	220
Y ffordd i ddigaloni eich Gweinidog	224
Y Parch. Stephenson Hunter	225
Cyfarfodydd Cenadol y Parch. J. Davies, Alltyplaca	213
Adolygiad y Wasg	232
Esgusodion	233
Manion	237
Congl yr Holiedydd	238
Gohebiaeth	238
Marwgof	239
Barddoniaeth	239

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

Y MOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] RHAGFYR, 1875. [Rhif. 34.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

HANES MERTHYRDOD WILLIAM HUNTER.*

ANERCHIAD I BLANT YR YSGOL SUL.

Y mae genym lawer iawn o enghreifftiau o wrhydri Cristionogol mewn hanesyddiaeth, ond ychydig efallai sydd yn fwy hynod nag hanes breintwas *(apprentice)* ieuanc o'r enw William Hunter. Yn anffodus, yr oedd yn byw yn nheyrnasiad y Frenines Mari, ac yr oedd yn un o'r cyfryw hyny oedd ganddynt i ddewis rhwng eu bywyd a'u crefydd. Os oedd eu crefydd yn groes i'r grefydd sefydledig, yr oeddynt yn rhwym o'i rhoddi hi neu eu bywydau i fyny. Ymddengys fod pregethiad y diwygwyr wedi cael argraff ddwys ar ei feddwl ef; ond wedi i'r Frenines Mari ail sefydlu y grefydd babyddol, gorchymynwyd ef gan yr offeiriad i fyned i'r *Mass*. Gwrthododd Hunter fradychu ei gydwybod a'i egwyddorion crefyddol trwy gydsynio â'i gais, a phan ddaeth ei feistr i ddeall y perygl dirfawr yr oedd yn agored iddo yn y dyddiau profedigaethus ac erlidgar hyny, danfonodd ef ymaith i'w gartref yn y wlad, yn Brentwood, Essex. Ond nid oedd yn ddyogel hyd y nod yno. Yr oedd llygaid yr offeiriaid yn mhob man. Pan oedd Hunter yn darllen ei Feibl yn eglwys Brentwood, daliwyd ef yn y weithred gan yr offeiriad. Yr oedd y bachgen tlawd yn cyflawnu pechod anfaddeuol yn ngolwg ei gyhuddwr. "A allai efe ddeongli yr Ysgrythyr," gofynai yr offeiriad, "fel y darllenai efe ef iddo ei hunan a throsto ei hunan?" Atebodd Hunter ei fod ef yn ei ddarllen er ei gyssur ei hun, ac na chymmerai arno i'w esponio i ereill. Dysgai y Beibl ef pa fodd i fyw, a pha fodd i wahanu y drwg oddiwrth y da. Ond nid oedd hynyna yn rheswm digonol i gyfreithloni y fath waith

* Gwel Froude's "History of England," Cyfrol V.

yn nhyb yr offeiriad. Gwelai fod Hunter yn fachgen oedd yn cashau cyfreithiau caeth a chreulawn y frenines, ac heb fod yn hir mynai iddo ef, yn gystal ag hereticiaid ereill, i gael eu llosgi. O herwydd fod ei gyfeillion yn ofni y canlyniad, danfonasant ef ymaith drachefn i ryw le y byddai yn anadnabyddus ynddo. Darfu i ynad pabyddol, yr hwn a drigianai yn ei hen gartref, roddi gorchymyn i'w dad i ddwyn ei fab gerbron, neu roddi ei hunan i fyny yn ei le. Yna cymmerodd ymgom brysur le rhwng y tad a'i anwyl fab, am ei fod yn gomedd cael ei ddyogelu ar y fath delerau, ac felly dychwelodd adref, a rhoddodd ei hun i fyny yn wirfoddol i'r ynad annhrugarog a gormesol hwn. Anfonwyd ef ganddo at Bonner, Esgob Llundain ar y pryd, ac wedi iddo gael ei gadw a'i boeni yn y carchar am dri chwarter blwyddyn, anfonwyd am dano i gael ei holi, a darfu i galon galed erlidiwr ffyrnig y Protestaniaid gael ei chyffwrdd pan welai y breintwas ieuanc diniwed yn sefyll o'i flaen. Ymdrechodd berswadio y bachgen i droi yn fradychwr i'w gydwybod, a chyffesu ei gred yn y grefydd babyddol, ac felly achub ei fywyd. Gwnaeth y cynnygion mwyaf profedigaethus iddo. "Os tyni yn ol," meddai wrtho, "gwnaf di yn ddinaswr rhydd, a rhoddaf i ti ddeugain punt i sefydlu dy hun mewn masnach, oblegyd yr wyf yn dy hoffi yn fawr." Ond yn ofer y temtiodd yr Esgob ef. Yr oedd rhywbeth o fwy o werth yn ei olwg ef nâ bywyd a chyfoeth ar y fath delerau. Diolchodd i'r esgob am ei garedigrwydd, ond ni dderbyniodd ei gynnygion, oblegyd, fel y dywedai, "rhaid i mi sefyll dros y gwirionedd; ni allaf ddweyd yr hyn nad yw wir, na ffugio credu yr hyn nad wyf yn gredu." Dywedodd Bonner, a hyny oddiar argyhoeddiad trwyadl, os oedd yn penderfynu glynu wrth ei argyhoeddiadau presenol, y buasai yn cael ei ddamnio am byth. Atebodd Hunter trwy ddywedyd fod Duw yn barnu yn fwy cyfiawn nâ dynion, a'i fod Ef yn cyfiawnhau y rhai y mae dynion mewn modd annghyfiawn yn eu condemnio. Cafodd y bachgen dewr a ffyddlon yma ei dynghedu i farw am ddwyn ei dystiolaeth i'r gwirionedd fel y deallai efe ef, ac ar ddydd Sadwrn, Mawrth y 23ain, 1555, danfonwyd ef i gael ei losgi yn ei bentref genedigol. Pennodwyd iddo gael ei losgi y dydd Mawrth canlynol, ac yn y cyfamser caniatawyd iddo weled ei gyfeillion a'i berthynasau. Yr oeddynt yn deilwng o hono ef. Gweddiai ei dad yn ddyfalach ddyfalach am iddo gael nerth i barhau hyd y diwedd yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau. Dywedai ei fam ei bod hi yn ddedwydd wrth feddwl ei bod wedi dwyn plentyn i'r byd oedd yn foddlon aberthu ei fywyd er mwyn yr Iesu. "Mam," atebai, "am yr ychydig a ddyoddefaf, mae'r Iesu wedi addaw i mi goron gogoniant. Oni ddylech chwi fod yn falch o hyny, mam!" Pan ddaeth y dydd Mawrth du, gorchfygwyd mab y Sirydd, yr hwn oedd i arolygu y dienyddiad, gan gydymdeimlad â'r bachgen dewr; cofleidiodd Hunter, ac archodd iddo beidio ofni; ond ni allasai ddweyd rhagor gan wylo. Ar yr awr bennodedig, cymmerodd Hunter afael yn mraich ei frawd, a cherddodd yn dawel a digryn at yr ystanc. Pasiodd ei dad ar ochr y ffordd, ond nid heb iddynt basio yr ymddiddan gwresog a ganlyn â'u gilydd:—"Duw fyddo gyda thi, fy mab William," ebe ei dad. "Duw fyddo gyda thi, dad

anwyl," ebe y mab mewn atebiad, "a chymmer gyssur." Ond wedi dyfod at yr ystanc yr oedd ei brofedigaeth galetaf i gymmeryd lle, a'i ffyddlondeb i gael ei brofi. Parotodd ei hunan trwy fyned ar ei liniau mewn gweddi ar y ffagodau. Yna clywai y Sirydd yn darllen cynnygiad pardwn iddo os tynai yn ol ei heresi; ond parhaodd yr enaid gwrol yma yn ffyddlon hyd y diwedd. "Ni thynaf yn ol," ebe fe, a chylymwyd ef â chadwyn haiarn wrth y post. Gan droi at y lluaws oeddynt yn ei amgylchynu dywedodd, "Gweddiwch drosof fi, bobl dda, tra y gwelwch fi byw," a chan edrych i fyny dywedodd, "Fab Duw, tywyna arnaf fi." Dywedir i'r haul ddyfod o dan gwmmwl y pryd hwnw, a dysgleirio mewn gogoniant mawr ar ei wyneb ef. Cyneuwyd y ffagodau, a daeth y diwedd, yr hwn a ddyoddefwyd gyda dewrder, yn fuan i ben. Y weithred weledig olaf a gyflawnodd y bachgen gwrol hwn oedd taflu y llyfr gweddi, yr hwn a ddaliai yn ei ddwylaw, trwy y fflamiau i'w frawd, yr hwn a barhâai i'w galonogi â'i bresenoldeb, a chyda llais crynedig ddigon, wrth bob tebyg, dywedodd wrtho, "William, meddwl am gariad Crist, ac nac ofna farwolaeth." A'i anadliad olaf, atebodd y merthyr ieuanc, gwrol, "Nid oes arnaf ofn. Arglwydd, Arglwydd, derbyn fy yspryd;" ac felly y bu farw yn y ffyddlon arddeliad o'i ffydd. Y fath yw hanes gyffrous a gwirioneddol William Hunter, yr hwn fu esampl anarferol o ffyddlondeb a gwrhydri Cristionogol.

Y WERS.

Y wers gyntaf mae yr hanes yma yn ddwyn i'n meddwl yw, fod genym ni lawer iawn o resymau i fod yn ddiolchgar am nad ydym ni yn byw yn y fath amserau a William Hunter, pan oedd y gosp am ddarllen y Beibl y mwyaf llym a phoenus. Ni allwn ni ddim braidd sylweddoli ein manteision ein hunain, heb yn gyntaf peth eu cymharu ag anfanteision y dyddiau ydym wedi cyfeirio atynt. Gwers bwysig arall allwn ddysgu oddiwrth ferthyrdod William Hunter yw, y dylem brisio yn fwy cyflawn y rhyddid crefyddol ydym ni yn awr yn ei fwynhau; ac nid yn unig ein *rhyddid* crefyddol mae hyn yn ddysgu i ni i'w brisio yn fwy, ond hefyd ein *crefydd*. Nid oes yr un perygl yn gyssylltiedig â'n crefydd ni; y mae yn elfen yn ein bywyd ni sydd yn dyfod i ni mor naturiol a rhwydd â'r awyr a anadlwn. Ofnwn mai ychydig feddyliwn ni am hyny. Ond yr oedd y grefydd a broffeswn ni yn awr gydag ysgafnder, efallai, unwaith yn beth y meddyliai dynion a bechgyn o werth i farw er ei mwyn, pan oedd galwad am hyny. Oni chawn ninau feithrin yn fwy dwys yr hyn oeddynt hwy yn gosod cymmaint o bwys arno?

Y gwersi mwyaf pwysig ac addysgiadol, fodd bynag, mae yr hanes yma yn ddysgu i ni yw y rhai a gyfeiriant at y rhinweddau moesol sydd yn cael eu harddangos ynddi,—wedi cael eu harddangos gan fachgen, ac o herwydd hyny y maent yn hynod addasedig i fod yn esampl i'r ieuainc. O'r dechreu i'r diwedd, ni wyrodd William oddiwrth ymlyniad diysgog wrth y gwirionedd. Do, fe lynodd wrth y gwirionedd er cymmaint y gosp. Nid aethai i'r *Mass*, yn yr hwn nid

oedd yn credu, er ei fod yn peryglu ei fywyd wrth omedd gwneuthur felly; ac ni wadai y ffydd, er y buasai hyny yn foddion i achub ei fywyd, a sicrhau clod y byd a sefyllfa gyssurus iddo mewn bywyd, fel y tybiai ei elynion. Gwelwn ei wrhydri diofn pan oedd, er yn ieuanc, yn sefyll yn ddigryn o flaen yr offeiriad a'r ynad, yr esgob a'r sirydd, yn canlyn eirchion cydwybod oleuedig a da, ac yn gomedd talu un sylw i'w gorchymynion, eu bygythion, na'u deniadau, er eu bod yn dal ei fywyd yn eu dwylaw. Gwelwn y gwrhydri yma fwyaf pan oedd wrth yr ystanc, yn dewis marwolaeth yn hytrach nâ gwadu ei egwyddorion, a phan yn dyoddef yn dawel a chydag amynedd, arteithiau ei farwolaeth. Gwelwn ei hunan-aberth hollol a chyfan yn ei waith yn rhoddi ei hunan i fyny yn wirfoddol, yn hytrach nâ chaniatau i'w dad i ddyoddef yn ei le. Gwelwn ei ymwrthodiad trylwyr i wrando ar gynnygion profedigaethus yr esgob. Gwelwn hefyd, uwchlaw pob peth, ei barodrwydd hollol i osod i lawr ei fywyd, yr hwn oedd yn rhwym o fod yn anwyl yn ei olwg, fel y mae ein bywydau ni oll yn anwyl yn ein golwg, er mwyn y gwirionedd. Y mae y gwirionedd, y gwrhydri, a'r hunan-aberth sydd yn dyfod i'r amlwg yn nghymmeriad William Hunter, yn rhinweddau y dylem oll, yn hen ac yn ieuanc a chanol oed, eu meddianu. Ydyw, y mae cymmeriad y bachgen yma yn wir deilwng o'n hefelychiad ni oll. Mae ein hamgylchiadau ni yn wahanol iawn i'w eiddo ef. Cymmaint hawddach gwaith yw bod yn ddynion ac yn blant geirwir yn awr nâ'r pryd hwnw! Nid ydym yn cael ein galw i ddangos cymmaint o wrhydri crefyddol ag ef, na chymmaint o hunan-aberth ychwaith. Gallwn fod, a dylem fod, yn ddynion geirwir. Nid ydym yn cael ein galw a'n gorfodi i fyned i'r ystanc. Nid oes genym i aberthu ein bywydau er mwyn ein hegwyddorion, nac er mwyn ein cyfeillion. Oni chawn ni, yn y dyddiau diweddaf hyfryd yma, ar lawer o ystyron, fod yn ffyddlon, fel y bu y bachgen William Hunter yn nydd ei dreialon dirfawr? Oni chawn ni fod yn anhunanol yn ein bywydau dyddiol fel efe dan gymmaint o anfanteision? Pa fachgen neu ferch, gofynwn wrth derfynu, all ddwyn i'w chof yr hyn a ddyoddefodd William Hunter ieuanc, heb gael ei chyffwrdd ag ysprydolrwydd ei esampl? D. E. H.

HANDEL.

(*Parhad o'r Rhifyn diweddaf, tud.* 206.)

Gwelodd Handel fyd caled, fel y profodd lluaws o'i flaen, ac y profa lluaws ar ei ol o wir feibion athrylith. Dygodd gorlafur corfforol a phryder meddwl ef i afiechyd trwm, fel yr ymosodwyd arno gan ffit o'r parlys. Symmudodd i Tunbridge, ac oddiyno i Aix-la-Chapelle. Cafodd y dyfroedd y fath effaith ddymunol arno, fel y dychwelodd i Lundain yn 1737, a chyssegrodd ei dalentau i gyfansoddi y darnau dwys a difrifol hyny sydd wedi cnnill iddo y fath ragoriaeth. Etto, y

mae yn ofidus meddwl fod ei *Oratorios—Saul, Israel in Egypt,* ac hyd y nod y *Messiah,* wedi eu derbyn mewn dull oeraidd, ac na ddarfu iddynt gynnyrchu yr effeithiau hyny y gallesid dysgwyl oddiwrth y fath gynnyrchion dihafal. Rhaid priodoli hyn i raddau helaeth i eiddigedd plaid ag oedd yn dal cyssylltiad â'r *Italian Opera* yn Llundain, enllib a dygasedd y cyfryw a lwyddasant i beri iddo adael Llundain a myned drosodd i'r Iwerddon.

Yn fuan ar ol hyn, gwnaeth brawf ar ei lwyddiant gyda chynnull-eidfa Seisnig; ond daeth yn fethdalwr gan y treuliau anferth yr aeth iddynt gyda'i *Oratorios,* a gorfodid ef i'w canu i feinciau gweigion. Ond yr oedd y brenin Sior III., yn debyg i'w dad, yn meddu archwaeth goethedig at gerddoriaeth dda, a rhoddai yn ddieithriad y flaenoriaeth i gyfansoddiadau Handel. Yr oedd y dyddordeb a deimlai y brenin, yn nghyd â'r cynnorthwy arianol a roddodd tuag at Gylchwyl Goffadwriaethol Handel yn Westminster Abbey yn 1784, yn dwyn prawf eglur o wirionedd hyn. Y diwrnod cyntaf y canwyd y *Chorus* arddunol "Hallelujah! for the Lord God Omnipotent reigneth," amlygodd y brenin ei ddymuniad i Lord Sandwich am gael ei ail ganu. Canwyd y *chorus* yma y trydydd diwrnod, a gwnaeth y brenin amnaid â'i law ei hun ar i'r côr ei ganu yr ail waith.

Yn ei flynyddoedd olaf aeth Handel yn ddall, a golygfa bruddaidd ydoedd ei weled yn hen wr, y pryd hwn dros 70 mlwydd oed, yn cael ei arwain at yr organ, ac yna yn cael ei arwain yn ol i wneyd ei foes-ymgrymiad i'r dorf. Er ei ddallineb, parhaodd i chwareu yr organ gyda medrusrwydd a dylanwad anngerddol. Pan yn chwareu yr alaw gyffrous y "Total Eclipse," o *Oratorio* "Samson," dywedir ei bod yn effeithio yn ddwys iawn arno, fel ag i beri i'r dagrau dreiglo dros ei ruddiau.

Bu marwolaeth Dr. Handel, tad y cerddor, yn achlysur i alw Handel i Halle, gan nad oedd ei dad wedi gadael ar ol ond ychydig ddarpariaeth ar gyfer ei deulu. Cafodd ei gyflogi i chwareu y crwth, math o *second fiddle,* yn Hamburgh *Opera House.* Nid oedd yn chwareu ond ychydig, a'r ychydig hyny o rywogaeth wael, fel y daeth yn wrthddrych gogan y perorion. Un diwrnod, pan oedd blaenor yr *orchestra* wedi ei orfodi i fod yn absenol, cymmerodd Handel yr arweiniaeth yn ei le, ac arweiniodd yr *orchestra* gyda y fath allu a deheurwydd fel y torodd y perorion allan mewn un fanllef o gymmeradwyaeth. Yn fuan ar ol hyn, derbyniodd gynnygiad i briodi. Cai fod yn organydd yn Lubeck os cymmerai ferch yr organydd yn wraig, yn nghyd â'r hen organ fel gwaddol. Ond gwrthodod Handel y naill a'r llall. Ni bu erioed yn briod, a hwyrach y teimlai nad oedd yn ddoeth na haelionus ynddo i dderbyn fel rhodd yr hyn nad oedd wedi geisio, a'r hyn nad oedd arno eu heisiau. Yr oedd Handel yn cymdeithasu â rhai o brif bendefigion Llundain, megys y Duc Chandos, yn nghyd â rhai o brif feirdd y dyddiau hyny, megys Pope, Addison, Gay, ac ereill. Adeiladodd y Duc balas a gostiodd iddo £230,000, ac yn gyssylltiedig ag ef yr oedd ganddo *private chapel,* a phennododd Handel yn organydd iddo yn lle y Dr. Pepusch. Mae y capel hwn i'w weled yn bresenol yn Edgeware,

ac y mae yr organ y chwareuai Handel arno hefyd yn aros, ac yn cynnwys yr adysgrif canlynol :—"Handel was organist of this church from 1718 to 1721, and composed the oratorio of Esther on the organ." Am y ddwy neu y tair blynedd diweddaf o'i oes, mynychai yn gysson y gwasanaeth dwyfol yn Eglwys St. George, Hanover Square. Claddwyd ef yn Westminster Abbey. Uwchlaw ei weddillion marwol, cyfodwyd cofadail brydferth iddo gan Rombiliac, yn mha un y gosodir allan Handel yn dal ysgrif-rol yn ei law, ac yn ysgrifenedig arni "I know that my Redeemer liveth" ('Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw"), a chyda y nodau ar y geiriau hyn fel y maent yn y "Messiah."

Y mae lluaws o amgylchiadau yn hanes bywyd Handel ag sydd yn profi ei fod o dymher wyllt ac afrywiog, ac nad càr agos i'r amynedd-gar Job ydoedd. Hwyrach nad yn aml y cafodd dyn ei ddwyn i'r fath brofedigaethau chwerwon â Handel. Yr oedd yn wrthddrych enllib, gwawd, a gogan lluaws o gantorion a chyfansoddwyr cerddoriaeth. Cawn nodi dau neu dri o brofedigaethau chwerwon, a'i dymher yntau mewn canlyniad. Pan y darfu i'r cerddor enwog Carestini anfon yn ei hol yr alaw "Verdi Prati," cyffrodd nwydau Handel, rhuthrodd i dŷ y cerddor, ac ysgydwodd y darn cerddorol yn ei wyneb gan waeddi, "You tog! don't I know better as yourself vat you sall sing? If you vill not sing all de song vat I gave you, I vill not pay you ein stiver!" Pan mewn yspryd cyffelyb, gwrthododd y gerddores Cuzzoni ganu "Falsa Imagine," torodd Handel allan mewn nwydau aflywodraethus, gafaelodd yn ei braich, "Ah! I always knew you were a very tevil," ebe fe, "and I shall now let you know that I am Beelzebub de prince of the tevils!" Un amgylchiad neillduol arall a nodwn a gymmerodd le yn yr *Opera*. Yr oedd y Tywysog wedi dyfod yn brydlon y noson hon, gan gofio fod y diweddariaid yn peri gofid calon i Handel. Yr oedd yr offerynau wedi eu cyweirio pan ddaeth y perorion i mewn; ond yn anffodus yr oedd rhyw greadur castiog a chellweirus wedi gosod y *stringed instruments* allan o gywair. Dacw Handel yn dyfod i mewn, ac yn rhoddi yr awgrym i gychwyn,—dacw y perorion yn dechreu mewn yspryd ac yni. Yr oedd seiniau aflafar yr offerynau yn disgyn ar glustiau tyner Handel fel gwreichion o dân ar gnawd byw—rhuthrodd ar y crwth, a chwalodd ef yn ddarnau,—syrthiodd ei *wig*, a neidiodd yn benfoel i'r esgynlawr—y dorf yn chwerthin. Safai Handel ger eu bron yn ddrwg nwydus, a chyffro ei fynwes yn ei atal i siarad. Yr oedd y Tywysog yn mwynhau yr olygfa, ond tybiai mai gwell oedd cyfryngu, a chafodd gan Handel i wneyd ail brawf. Yr oedd Handel yn ymwybodol o'i ddiffygion, a cheid ef yn aml yn barod ac ewyllysgar i wneyd dyheurawd *(apology)*. Yr oedd ganddo galon a chydwybod dyner, ac nid ydyw yr hyn a nodwyd ond brychau ar wyneb yr haul. Yr oedd Handel yn talu y rhai a gyflogai yn anrhydeddus pan gofir yr adeg yr oedd yn byw ynddi. Cafodd Senesino a Carestini y swm o £1,200, a Cuzzoni £2,000, am yr hyn a elwir un tymhor.

Buasai yn dda genym wneyd rhai crybwylliadau am *Oratorios* Handel, pa bryd yr ysgrifenwyd hwynt, yn mha le, ac o dan ba amgylchiadau, yn nghyd â'r dull y derbynid hwy gan y cyhoedd; ond cym-

merai hyn ormod o'ch gofod. O'r flwyddyn 1732 i 1740, cyfansoddodd 16 o *Operas* a 5 *Oratorio*, ac o'r flwyddyn 1741 i 1751, cyfansoddodd 11 o *Oratorios*, gan gychwyn gyda y "Messiah," a diweddu gyda "Jephtha." Bu Handel yn cynnal cyngherdd yn Oxford, a dywedir fod 3,700 o bersonau yn bresenol. Cyn iddo ymadael ag Oxford, tybiodd rhai o'i edmygwyr y buasai yr anrhydedd o *Doctor of Music* o werth annhraethadwy iddo. Gallwn dybied fod llygaid y myfyrwyr yn agor dipyn yn lletach nag arferol wrth atebiad byr a chwta Handel,—"Vat, to trow my money away for dat vich de blockhead vish? I no vant!"

Ar gais Duc Devonshire, talodd Handel ymweliad â'r Iwerddon. Hanner addolai y Gwyddelod ef. Dywedir am un offeiriad ag oedd yn bresenol yn un o'r cyngherddau iddo annghofio ei hun a'i Feibl i gymmaint o raddau, fel ar derfyn un o'r alawon a ganai Mrs. Cibbers, "Woman," ebe ef, "for this be all thy sins forgiven thee," (Fenyw, am hyn bydded i dy holl bechodau gael eu maddeu i ti); tra y dywedai brawd arall yn angerddoldeb ei awen,—

> "To harmony like his, celestial power was given,
> To exalt the soul from earth, and make of hell a heaven."

Gwelodd Handel lawer tro ar fyd. Ar un adeg safai ar binacl enwogrwydd, tlawd a chyfoethog yn talu gwarogaeth iddo; bryd arall ar waelod y glyn, beirdd a cherddorion yn bwrw poeredd arno. Tua diwedd y flwyddyn 1752, aeth Handel yn gwbl ddall; ond parhaodd hyd ddiwedd ei oes i chwareu yr organ. Priodol y gallasai fabwysiadu llinellau y bardd Milton iddo ei hun,—

> "Dark, dark, dark, amid the blaze of noon,
> Irrecoverably dark, total eclipse,
> Without all hope of day!
> O first created Beam, and thou great Word,
> 'Let there be light,' and light was over all;
> Why am I thus bereaved thy prime decree?
> The sun to me is dark."

Mor fuan ag y daeth yn ymwybodol fod ei ddallineb yn anfeddyginiaethol, ymostyngodd i'r oruchwyliaeth gyda thawelwch meddwl mawr. Credai fod awr ei ymddattodiad yn yr ymyl. Amlygai ddymuniad i gael marw ar ddydd Gwener y Groglith, a chafodd ei ddymuniad. Dymunai hefyd ar fod i'w weddillion gael eu cludo i Westminster Abbey, yn mhlith y bobl a roddasant le iddo yn eu mynwesau a'u cartrefi. Yn gerfiedig ar ei gofadail y mae a ganlyn:—

"GEORGE FREDERICK HANDEL, Esquire.

Born February 23, 1684.

Died on Good Friday, April 14, 1759."

"Yr oedd cymmeriad Handel," ebe Hogarth, "yn brydferth a hawddgar, a chrefydd wedi cymmeryd gafael ddofn ynddo." Arferai Handel amlygu y pleser a'r boddhad a deimlai ei fod wedi cyfansoddi ar ym-

adroddion arddunol a phrydferthaf yr Ysgrythyrau Santaidd. Yr oedd Handel yn weithiwr cysson a chaled, yn brwydro yn erbyn anhawsderau. Dywed un o'i fywgraffwyr am dano :—"He braved everything, and by his unaided self accomplished the work of twelve men." Dywed y cerddor enwog Haydn :—"There is not a note of him but draws blood. When he chooses he strikes like a thunderbolt." Yr oedd Handel yn gawr mewn nerth meddyliol, yn wenynen mewn diwydrwydd, ac yn angel mewn athrylith.

Trecynon. J. W.

Y FFORDD I DDIGALONI EICH GWEINIDOG.

1. Na feddyliwch am foment fod yr un pethau yn dylanwadu ar eich gweinidog ag sydd yn dylanwadu arnoch chwi. Os ydych chwi yn cael eich siomi pan yn dysgwyl cyfaill i dalu ymweliad â chwi a dim yn dyfod, na feddyliwch ynoch eich hunan ei fod ef yn cael ei siomi o gwbl, a bod ei deimladau yn cael eu dolurio pan ydych chwi yn absenoli eich hunain o'r gwasanaeth cyhoeddus ar y Sul, foreu a hwyr a chanol dydd.

2. Gwrandewch arno yn bur anaml, a gofalwch ddyfod i'r cwrdd dipyn yn ddiweddar. Bydd hyny yn gefnogaeth iddo ef i fod mewn tymher dda, ac i greu yspryd dymunol ynddo i fyned yn mlaen â'i waith, ac ond odid na fydd yr olygfa ga wrth ddyfod i mewn i dŷ Dduw yn dylanwadu arno yn ystod y cwrdd i gyd. Pob peth yn oer wrth ddyfod i mewn, pob peth yn oer wedi dyfod i mewn, a phob peth yn oer wrth fyned allan. Na chydunwch â'r côr na'r gynnulleidfa i ganu mawl i Dduw, os yw yn eich gallu i ganu. Os cymmerwch hûn cwsg am gymmaint â chwarter awr pan y bydd ef yn traddodi ei bregeth, fe gyflawnwch yn effeithiol y gwaith o greu teimlad anhyfryd yn ei fynwes.

3. Sylwch yn fanwl ar bob camsyniad bychan a mawr ddichon iddo wneyd pan ydych ar ddihun ; nodwch allan y cyfryw i'ch plant, os oes plant genych, a'ch cyfeillion. Bydd hyny yn sicr o ddyfod i'w glustiau ef heb fod yn hir, ac wrth gwrs, gan ei fod ef yn teimlo yn wahanol i chwi ni fydd i hyny i achosi un poen na theimlad annymunol iddo ef.

4. Siaradwch yn uchel yn erbyn y mesurau y mae am eu mabwysiadu a'u gosod ar waith gyda golwg i wella y gynnulleidfa, a gofidiwch oblegyd ei fod mor fyr o ddeall da, a gadewch iddo wybod na chynnorthwywch chwi ddim o hono ar un cyfrif, oblegyd fod Mari Tomos, o'r Tŷ-du, yn gwneuthur felly, neu oherwydd nad yw wedi ymgynghori digon gyda chwi yn mlaenaf peth, neu oherwydd na ddarfu i chwi eich hunan roddi cychwyniad i'r mudiad.

5. Gofalwch iddo gael gwybod am ffaeleddau a phechodau ei wrandawyr. Argyhoeddwch ef fod ganddo ormod o ymddiried ynddynt, a

dywedwch wrtho am eu barn hwy am dano ef, a'u bod yn siarad yn ddiystyrllyd ac isel am dano.

6. Dywedwch wrtho pan y bydd yn talu ymweliad â chwi y fath ddyeithr ddyn ydyw; pa fodd oedd eich gweinidog blaenorol yn arfer dyfod i'ch tŷ i siarad am gymmaint ag hanner awr, mwy neu lai, bob wythnos, a pha mor hoff oeddech chwi o hono.

7. Gofalwch beidio mynychu yr un cwrdd yn ystod yr wythnos na chyrddau neillduol yr eglwys. Paham y dylech chwi fod yn rhy selog, gweithgar a da, nac ymdrechu dylanwadu ar ereill yn unrhyw fodd i ddylyn eich esampl?

8. Na roddwch wybod iddo pan fyddoch wedi cael eich cymmeryd yn sâl; wrth gwrs, dylai efe wybod hyny, a dangoswch iddo eich bod wedi cael eich siomi yn fawr ynddo pan y daw i ymweled â chwi, a'ch bod yn meddwl fod pawb gweinidogion yn fwy ystyriol, yn fwy boneddigaidd a christ'nogol nag efe.

9. Os yw yn ei bwlpud ei hun bob Sul, dywedwch eich bod yn anfoddlon i hyny, ac i fod cisieu clywed llais dyeithr ddyn arnoch. Os oes dyledswydd gyhoeddus ganddo, a galwad arno ar rai prydiau i fyned oddi cartref, cwynwch, a dywedwch nad yw byth gartref.

10. Cadwch ei gyflog yn y man iselaf possibl i chwi. Y mae amgylchiadau gweddol gyssurus yn y byd yn demtasiwn cryf iddo ef i beidio cyflawnu gyda'r gostyngeiddrwydd gweddus iddo, ac yn onest a ffyddlon ei waith, a dywedwch wrthoch eich hunan yn gystal â'ch cydaelodau nad yw yn gweddu, ac na ddylai neb fwynhau cysuron y ddaear hon ond gwyr lleyg yn unig; ac os na fydd yn ymddangos yn weddol drwsiadus, siaradwch mewn tôn gwynfanus yn nghylch ei dlodi, a dywedwch fod pawb yn ymddangos yn fwy trwsiadus nâ'n gweinidog ni.

Y mae dyfalbarhad gyda gwaith fel yma wedi bod yn effeithiol iawn laweroedd o weithiau, nid yn unig i ddigaloni, ond i osod terfyn ar ddefnyddioldeb, a lladd yspryd gweinidogion; i'w gyru ymaith i ymofyn am gylchoedd ereill o ddefnyddioldeb, ac ar rai prydiau i beri iddynt i ofidio a galaru, ië, ac i'w dwyn i'w beddau yn anamserol.

Dylai y sawl sydd am ochelyd y canlyniadau anhapus a gresynus yma ofalu peidio gweithredu yn ol y rheolau uchod, ond yn hytrach cydymddwyn gyda'u gilydd yn yspryd yr Efengyl. Bydded tristwch un yn dristwch i'r llall, a llawenydd a gorfoledd un yn orfoledd i'r llall. Bydded cariad yn ddiragrith yn ein gwaith yn cynnorthwyo ac yn dyddanu ein gilydd. Meddylied holl aelodau yr eglwys grist'nogol pa mor ofalus y dylent fod i beidio esgeuluso eu cydgynnulliad, ac i fod eu hunain yr hyn a ddymunent ac y carent i'w gweinidogion fod.

P. W. C.

Y PARCH. STEPHENSON HUNTER.

Ar y 6fed o Dachwedd, ar y Parade, Caerfyrddin, ar ol cystudd byr, bu farw y Parch. Stephenson Hunter, Gweinidog Undodaidd, yn yr

oedran teg o 72ain. Ganwyd ef ar etifeddiaeth ei dad o fewn tair milltir i Crumlin, ger Belfast, Iwerddon, ar y 27ain o Fawrth, 1803. Derbyniodd ei addysg foreuol yn Sefydliad Addysgiadol Crumlin, ac Athrofa y Brenin, Belfast; yn y lle olaf arosodd dair blynedd, yna gwasanaethodd fel athraw teuluaidd am dymhor byr, ond yn y flwyddyn 1824, dychwelodd i Athrofa Belfast, ac ar ol aros yno am flwyddyn, trwyddedwyd ef yn Weinidog. Ar ol hyn treuliodd amryw flynyddau mewn addysgu, ac yn Mawrth, 1830, appwyntiwyd ef yn Weinidog ar Eglwys Undodaidd luosog yn Wolverhampton, lle y perchid ef yn fawr gan gylch helaeth o bob enwad, ac ar ei ymadawiad i Gaerfyrddin yn 1860, cafodd ei anrhegu gan ei hen ysgolheigion ac ereill ag awrlais hardd gwerth 50 punt, a phwrs yn cynnwys yr un swm. Yn Nghaerfyrddin, er y flwyddyn 1860, bu yn dal cyssylltiad agos â'r Athrofa Henadurol, lle y llanwodd y swydd o Athraw Clasurol a Rhifyddiaethol am yr yspaid o dair blynedd, hyd nes yr appwyntiwyd ef yn Brif Athraw, a pharhaodd i gyflawnu dyledswyddau y swydd hono hyd yn ddiweddar iawn, pan orfododd afiechyd iddo roddi ei waith i fyny. Daeth Mr. Hunter hefyd yn olynydd i'r diweddar Dr. Lloyd, fel gweinidog cynnulleidfa yr Undodiaid yn Nghaerfyrddin, yn yr hwn wasanaeth y rhoddai foddhad cyffredinol. Yr oedd ei bregethau yn rymus ac yn ffrwyth meddwl dwfn, ond etto mor syml, fel y deallid ac y gwerthfawrogid hwynt gan blant y gynnulleidfa yn gystal â phobl mewn oed. Fel Athraw yr oedd yn llwyddianus iawn. Amcanai ddwyn y cyfan yn mlaen yn rheolaidd a thrwyadl. Yr oedd bob amser yn fwyn a siriol, yr hyn a wnai y myfyrwyr i'w garu ac nid ei ofni, ac edrychid arno fel tad yn gystal ag Athraw.

Drwy ei farwolaeth y mae y dref wedi colli, nid yn unig Gweinidog teilwng o efelychiad, a didwyll bleidiwr addysg, ond gwleidyddwr gwresog yn ogystal. Proffesai olygiadau rhyddfrydig cymmedrol, ac y mae llawer yn cofio ei allu a'i dymher dda pan yn traethu y golygiadau hyny, pan ydoedd yn Gadeirydd Cymdeithas Ddadleuol Caerfyrddin. Yr oedd ei ymddygiad hynaws a boneddigaidd yn destyn edmygedd yn mhlith pob enwad a dosparth, yn annibynol ar olygiadau crefyddol a gwleidyddol; a thra yn talu y deyrnged fechan hon o barch i'w goffadwriaeth, yn ddi-ddadl gwna pawb o'r darllenwyr â'i hadwaenai, gytuno â mi i ddweyd fod dyn *mawr*, ac uwchlaw'r cyfan, dyn *da* wedi ymadael o'n plith. Fel nodau bychain o'r parch a fynwesid tuag ato, gellir nodi y penderfyniadau canlynol o eiddo Cyfarfod y Bwrdd Henadurol, yn Llundain, a gynnaliwyd ar yr 8fed o Dachwedd. Pasiwyd yn unfrydol:—(1.) "Fod aelodau y Bwrdd Henadurol wedi clywed, gyda galar, am farwolaeth Mr. Hunter, a'u bod yn dymuno dangos eu parch uchel i'w gymmeriad, a'u gwerthfawrogrwydd o'i wasanaeth maith a ffyddlon, fel Gweinidog Cristionogol, ac Athraw a Phrif Athraw Athrofa Caerfyddin, am yspaid pumtheg mlynedd." (2.) "Y dymunid i'r Ysgrifenydd (y Parch. T. Marshall), i gyflwyno y penderfyniad uchod i Mrs. Hunter, gyda thystiolaeth o gydymdeimlad calon pob aelod o'r Bwrdd â hi a'i theulu yn eu hamddifadrwydd." Anfonwyd penderfyniadau cyffelyb oddiwrth Gyfarfod Chwarterol yr An-

nibynwyr, a gynnaliwyd yn Nghapel y Proffeswr Morgan, ar y 9fed o Dachwedd, ac hefyd oddiwrth gynnulleidfa Undodaidd y dref.

Claddwyd yr ymadawedig dydd Mercher, Tachwedd 10fed, yn Nghladdfa gyhoeddus Caerfyrddin, ger llaw y diweddar Dr. Lloyd, a'r Parch. Titus Evans. Gweinyddwyd ar yr achlysur yn effeithiol iawn gan y Parch. Edward Higginson, Abertawe. Yn unol â dymuniad y teulu galarus, nid oedd yr angladd yn un gyhoeddus, etto dygai yr achlysur bob arwyddion o barch ar ran trigolion y dref. Blaenorid yr orymdaith gan fyfyrwyr yr Athrofa (38 mewn nifer), a'r Parch. Kentish Bache, o Moretonhampstead, yna gan yr orymdaith angladdol, yn cynnwys y Parchedigion Edward Higginson, Shadrach Pryse (Arolygwr Ysgolion y Llywodraeth), y Proffeswyr Morgan a Jones, T. L. Marshall (Dirprwywr o'r Bwrdd Henadurol), ac amryw foneddigion ereill. Yr holl ffordd o'r Parade i'r Gladdfa, yr oedd gan mwyaf o'r masnachdai a'r tai annedd â lleni dros eu ffenestri, a dangosai y preswylwyr eu galar drwy y parch a dalent i'r orymdaith bruddaidd fel yr aethai yn araf yn mlaen. Cyn y bydd hyn o linellau yn nwylaw y darllenwyr, bydd y Parch. Proffeswr Morgan (Annibynwr), wedi traddodi y bregeth angladdol yn y Capel Undodaidd.

Tach. 17*eg*, 1875. E. C. J.

CYFARFODYDD CENADOL Y PARCH. J. DAVIES, ALLTYPLACA.

Gwnaed hyspysiad mewn rhifyn blaenorol o'r Ymofynydd fod y Parch. J. Davies, Alltyplaca, ar gais y *British & Foreign Unitarian Association* wedi ymgymmeryd â darlithio ar y ffydd Undodaidd mewn gwahanol fanau yn Neheudir Cymru. Dechreuodd ei waith yr ail wythnos o Hydref, yn Tonypandy, Cwm Rhondda. Mae wedi bod oddiar hyny nifer o weithiau yn Tonypandy, Treorkey a Llanelli, ac yn ddiweddar ychwanegodd Dowlais a Rhumni at y *list* o leoedd ag y bwriada ymweled â hwy bob pythefnos. Mae wedi cael derbyniad gwresog, a chyfarfodydd dymunol a gweddol luosog yn Tonypandy, Treorkey a Dowlais. Nid yw wedi bod etto yn Rhumni, ei ddarlith gyntaf i gymmeryd lle yno nos Fercher, Tachwedd 24ain, ar y "Beibl a'i Ysprydoliaeth." Mewn un man o leiaf, yn Treorkey, mae ymddangosiad Mr. Davies wedi bod yn foddion i gasglu at eu gilydd yno lawer o rai sydd yn cydymdeimlo â'r achos; ac mae yn bleser, nid bychan, genym i ddweyd fod Ysgol Sul wedi ei chychwyn yno yn barod, a phob argoelion yn ffafrio y gobaith y sefydlir yno achos parhaol heb fod yn hir. Yr ydym wedi clywed eu bod yn siarad yno am adeiladu capel, ac yn dechreu trefnu cynlluniau er dwyn hyny i ben. Bydd hyn yn galondid mawr i Mr. Davies, a phe byddai dim ond yr un achos ym yn aros fel coffadwriaeth o'i waith cenadol, yn ystod chwe' mis

wasanaeth, yr ydym yn sicr y byddai hyny yn ddigon i wneyd yr anturiaeth yn llwyddiannus, ac yn gymhelliad i'r *British Association* i wneyd ymdrechion cyffelyb yn y dyfodol. Fel y dywedwyd o'r blaen, mae Mr. Davies wedi cael pob chwareu teg a phob caredigrwydd ar ran ei wrandawwyr yn Tonypandy, Treorkey a Dowlais, ac mewn rhai enghreifftiau, derbyniodd ddiolchgarwch gwresog oddiwrth gyfeillion Trindodaidd, am ei ddull teg, hynaws a chymmedrol, o osod allan ei olygiadau. Ond mae yn ddrwg genym fod pethau wedi cymmeryd agwedd arall yn Llanelli, sir Gaerfyrddin. Nid ydym yn bwriadu gwneyd unrhyw sylwadau ar yr hyn a gymmerodd le, gadawn i wasg wythnosol Llanelli a Chaerfyrddin i grybwyll y ffeithiau, a thyned ein darllenwyr y casgliadau sydd yn deilliaw yn naturiol o'r hanes. Traddododd Mr. Davies ei ddarlith gyntaf yn yr Athenæum Hall, Llanelli, nos Lun, Hydref 18fed, i gynnulleidfa luosog, rhyw bump neu chwech cant yn bresenol. Ei destyn oedd y "Beibl a'i Ysprydoliaeth." Ar ol iddo derfynu, cododd y Parch. J. R. Morgan (Lleurwg), gweinidog y Bedyddwyr, i ofyn a fyddai y darlithydd yn caniatau iddo ef siarad a gofyn cwestiynau. Dywedodd y darlithydd nad ei amcan ef wrth ddyfod yno oedd cynhyrfu dadleuaeth gyhoeddus, ond yn unig i osod allan ei olygiadau ei hunan. Ni wnaeth Lleurwg mewn canlyniad un ymgais i wrthwynebu, ond dywedodd y byddai ef yn traddodi darlith ar yr un pwnc yn yr Athenæum Hall, y noswaith gyntaf y buasai yn rhydd; ac fe derfynodd y cyfarfod mewn perffaith dawelwch. Traddododd Lleurwg, yn ol ei addewid, ddarlith hyawdl iawn, ar y testyn "Cymmeriad y Beibl," ac mae adroddiad cyflawn o honi wedi ymddangos mewn dau rifyn olynol o'r *South Wales Press*. Ni wnawn unrhyw nodiadau ar y ddarlith yn bresenol o'r hyn leiaf, nid am nad oes llawer o fanau gweinion ynddi i ymosod arnynt, fel mae'n aml yn dygwydd mewn cyfansoddiadau poblogaidd a hyawdl. Ond gan nad beth feddyliwn ni fel Undodiaid am werth y ddarlith fel cymhorth i benderfynu pwnc ag mae meddyliau mwyaf galluog, diwylliedig a beirniadol y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi dyfod i gasgliadau gwahanol mewn perthynas iddo, nis gall fod dau feddwl am ymddygiad Lleurwg ar yr achlysur. Os dygwydd iddo byth weled y llinellau yma, derbynied ein diolchgarwch gwresocaf am ei ymddygiad boneddigaidd,—ei ymddygiad hollol deilwng o'r boneddwr Cristionogol ac o weinidog yr Efengyl. Yn mhen pythefnos, ar nos Lun, Tachwedd 1af, traddododd Mr. Davies ei ail ddarlith yn yr Athenæum Hall, ar "Undod Duw." Mae hanes y cyfarfod hwn wedi ei gyfieithu genym o'r *Llanelly Guardian* a'r *Welshman*, a chan eu bod yn cytuno gan mwyaf yn eu manylion, nis gall fod amheuaeth am ei gywirdeb.

Mae a ganlyn yn cynnwys y rhan fwyaf o adroddiad y *Llanelly Guardian* am Tach. 4ydd, 1875:—

"Nos Lun diweddaf traddododd Mr. Davies, o Sir Aberteifi, ei ail ddarlith yn yr Athenæum Hall, ar y pwnc o "Undod Duw." Yr oedd yr Hall yn orlawn cyn yr amser i ddechreu, gan fod si wedi myned allan ddiwrnodau yn flaenorol, fod y Parch. T. Davies, Siloah, (Annibynwr) yn myned yno i wrthwynebu. Ac hefyd, yr oedd y ffaith fod Mr. Morgan (Lleurwg), wedi traddodi darlith mewn atebiad i

Mr. Davies, ac felly dynu sylw cyhoeddus ato, wedi dwyn cynnulleidfa fawr yn nghyd, gymmaint felly, fel y gorfu i lawer ymadael ar ol methu cael mynediad i mewn. Bu y darlithydd rhyw ychydig ar ol ei gyhoeddiad, ac yn y cyfamser aeth y Parch. T. Johns (Annibynwr arall) yn anesmwyth, a chynnygodd rhywun fod iddo gymmeryd lle y darlithydd. O ganlyniad esgynodd i'r *platform*, ond gyda'i fod yn cymmeryd ei le yno, dyma'r darlithydd yn dyfod i mewn, a chyfaill yn ei ganlyn. Ymddangosai Mr. Johns mewn dyryswch ac enciliodd o'r *platform*. Yna dechreuodd y darlithydd, ac wrth ragymadroddi, dywedodd ei fod wedi dyfod yno i gyflawnu dyledswydd ddifrifol a chrefyddol—nad oedd yn cynnal y cyfarfod er mwyn dadl gyhoeddus, gan fod dadleuon crefyddol fel rheol yn tueddu i greu cynhwrf, teimladau drwg ac ymosodiadau personol, yn y fath fodd ag i'w gwneyd yn anhawdd i drin pynciau yn dawel gyda'r amcan i ddwyn y gwirionedd i'r golwg. Aeth y darlithydd yn mlaen i osod allan mewn modd tawel a digyffro ei ymresymiadau, gan ddyfynu rhanau o'r Ysgrythyr er amddiffyn y safle a gymmerai yn erbyn Trindod o bersonau. Cafodd y ddarlith wrandawiad astud, ac ni ddangoswyd un arwydd o annghymmeradwyaeth yr holl amser. Gyda bod y ddarlith ar ben, darfu i'r Parch. T. Johns, yr hwn oedd yn eistedd o dan y *platform*, godi ar ei draed, a dechreuodd siarad, pan yr aeth y Parch. T. Davies, Siloah, i ben un o'r meinciau yn nghanol yr Hall, a gofynodd i'r darlithydd am ganiatad i siarad mewn atebiad. Dywedodd yr olaf, beth oedd wedi ddweyd o'r blaen ar y dechreu, yr hyn a achosodd derfysg ofnadwy, gyda banllefau—"Trowch e' ma's," "Ciciwch e' ma's," ac mewn rhai enghreifftiau, ymadroddion lawer cryfach. Yna cododd Mr. J. A. Williams, a dywedodd "nad oedd e' ddim yn ail i neb yn ei ymlyniad wrth olygiadau Trindodaidd, etto galwai am chwareu teg i'r darlithydd. Yr oedd y darlithydd wedi hurio'r Hall i'w bwrpas ei hun, ac yr oedd wedi dweyd yn mlaen-llaw nad amcan y cyfarfod oedd dadleuaeth gyhoeddus, ac felly yr oedd yn annheg ei fod yn cael ei aflonyddu. Yr oedd y cyfarfod gymmaint yn eiddo y darlithydd y nos hono, ag oedd y cyfarfodydd yn y capeli yn eiddo y gweinidogion ag oedd yn gwasanaethu yno, ac nid oedd yn debyg y buasent hwy yn caniatau i'r darlithydd i godi fyny yn eu herbyn yn eu lleoedd addoliad. Dylent o'r hyn leiaf roddi chwareu teg." Yr oedd y terfysg yn parhau o hyd, a cheisiodd y darlithydd ar y gwrandawwyr i ymddwyn fel Cristionogion, ac ar hyny dyma'r Parch. T. Johns, yr hwn oedd yn awr ar y *platform* yn bloeddio allan, gan wneyd ystumiau bygythiol, "mai effaith y ddarlith oedd gwneyd Cristionogion yn *rebels* moesol." Ychwanegodd hyn etto at y terfysg, a gwaeddid allan, "Trowch e' ma's," "ciciwch e' ma's, &c. Yr oedd pob un a ddywedai air dros chwareu teg yn mysg y gwrandawwyr, yn agored i gael ei sarhau, ei ddifrio, a'i fygwth. Esgynodd y Parch. T. Davies, Siloah, i'r *platform*, ac yr oedd y darlithydd ar ei ffordd i ymadael, pan y gwaeddid ar ei ol ei fod yn "goward," &c., &c. Dygodd hyn y darlithydd yn ol, a rhoddodd ganiatad i'r Parch. T. Davies i'w hanerch am ddeg mynud, yr hyn a barhaodd i wneyd am 15 neu 20 mynud, pan y galwodd y darlithydd ef "at ei bwnc." Yr oedd Mr. Davies ar y pryd yn siarad yn alluog iawn, ac yn ymresymu ar y pwnc o dduwdod Crist, pan y dywedodd y darlithydd nad oedd efe wedi cyffwrdd a'r pwnc hwnw o gwbl, ond ei fod wedi ceisio profi Undod Duw, neu yn hytrach i wrthbrofi Trindod o bersonau yn y Duwdod. Parhaodd y Parch. T. Davies i siarad, ac ymadawodd y darlithydd yn nghanol melldithion hyddarol am yr hyn a edliwid fel ei gowardiaeth, &c. Felly y terfynodd y cyfarfod terfysglyd, yr hwn oedd yn bobpeth ond Cristionogol yn ei gymmeriad."

Feallai y dylid crybwyll yn y man hwn fod adroddiad unochrog wedi ymddangos yn y *Tyst a'r Dydd* yr un wythnos. Mae yr ysgrifenydd

yn myned gymmaint allan o ffordd fel ag i ddweyd fod y darlithydd yn defnyddio *manuscript* neu bapyr, gan led-awgrymu fod hyny yn beth anmhriodol iawn. Feallai na ddarfu iddo ef sylwi fod gan Mr. Davies, Siloah, hefyd ei bapyr, a'i fod wedi parotoi ei ateb i'r ddarlith ar "Undod Duw" cyn ei chlywed. Mae hyny yn esponio y sylw yn y *Llanelly Guardian* na chyffyrddodd Mr. Davies â'r pwnc o gwbl yn ei atebiad. Gyda'r adroddiad uchod, ymddangosodd ar yr un pryd yn y *Llanelly Guardian* erthygl arweiniol o dan y penawd "Erledigaeth Grefyddol." Yr ydym yn gosod y rhanau mwyaf pwysig a dyddorol o flaen ein darllenydd :—

"Yr oedd diwedd y cyfarfod a gynnaliwyd yn yr Athenæum Hall nos Lun yn warth i bobl wareiddiedig. Pe byddai y fath ddallbleidiaeth a rhagfarn benboeth wedi eu dangos yn Yspaen neu mewn gwleydd Mahometanaidd, ni fyddem yn synu rhyw lawer, ac mae yn fwy nâ thebyg y byddai y dynion ag oeddent mor ddiamynedd a therfysglyd ar yr achlysur hwn gyda'r cyntaf i anfon cenadon i droi y bobl hyny o 'gyfeiliorni eu ffyrdd.' Mae y ffeithiau yn debyg i hyn. [Gwel yr adroddiad.] Yr oedd y darlithydd wedi hurio yr *hall* ar ei draul ei hun, er mwyn rhoddi darlith ar egwyddorion ei grefydd, i osod allan y seiliau ar y rhai y gorphwysai ei gred. Nid yw o un gwahaniaeth beth oedd y gred hono. Mae yr egwyddor yn aros yr un. Dywedodd y darlithydd ar y dechreu ei fod wedi dyfod i osod allan ei syniadau, ac nid i ddadleu. Mewn gwrthwynebiad i hyn, yr oedd un neu ddau yn mhlith y gynnulleidfa yn benderfynol i wneyd eu lleisiau yn glywadwy, a gwnaeth y gwrandawyr eu hattegu yn y modd mwyaf terfysglyd. Yr oedd ymddygiad y gweinidog a ychwanegodd at y cynhwrf trwy ddweyd mai 'effaith y ddarlith oedd gwneyd Cristionogion yn *rebels* moesol,' yn feius i'r eithaf, a dangosai fod yn rhaid ei fod wedi meddwi yn foesol ar y pryd. Yr oedd yn amlwg i bob dyn ystyriol fod effaith y ddarlith yn hollol wahanol, oblegyd hyd nes iddo ef ac ereill ddechreu eu hystumiau, yr oedd pobpeth yn myned yn mlaen yn weddaidd a heddychlawn. . . . Pan y ceisiai y darlithydd i siarad ar ol i'r gweinidogion parchedig i sefyll i fyny, ni chaniateid iddo agor ei enau, a thrinid ef â phob dirmyg. Nid oedd y fath ymddygiad yn deilwng o ddim ond dyddiau y Chwil-lys. Pe buasai Martin Luther wedi ei drin yn gyffelyb yn ei amser ef, ni fuasai y dynion hyn o bossibl yn mwynhau yn bresenol fendithion gogoneddus y Diwygiad Protestanaidd. A fuasent hwy yn caru i'r un ymddygiad gael ei ddangos atynt eu hunain pe dygwyddai iddynt fod yn darlithio yn nghanol Yspaen Gatholig, gydag offeiriaid Pabyddol a'u canlynwyr yn gwrandaw arnynt? Yn mhellach, a ydyw yn debyg y byddai y rhai a wrthwynebent y darlithydd yn cyfarfod â'r fath driniaeth oddiwrth Undodiaid yn eu capeli ar ddiwedd un o'u pregethau? Yr ydym yn amheu hyny yn fawr. Yr oedd yr *hall* yn gapel y darlithydd y noswaith hono, a dylai gael ei adael yn llonydd. Yr oedd yr yspryd a ddangoswyd nos Lun yn dueddol i amddifadu dyn o'i ryddid i alw cyfarfod cyhoeddus, ac i osod allan ei olygiadau. . . . . Ac edrych ar y mater oddiar yr olwg grefyddol neu Gristionogol, yr oedd y teimladau chwerw a amlygwyd yn debyg i eiddo yr Iuddewon pan y llefent allan, "Croeshoelier ef! Croeshoelier ef!" Yr oedd y pwnc yn bwnc difrifol iawn, a dylai gael ei drafod felly, ac nid yn mhresenoldeb cynnulleidfa o derfysgwyr. Mae'n rhaid fod yr Un Santaidd yn mhell iawn o feddyliau a chalonau y rhai oeddent yn bresenol, ac o ganlyniad yr oeddent yn hollol anmharod i glywed y fath bwnc yn cael ei drin yn dawel ac yn bwyllog."

Ymddengys a ganlyn yn y *Welshman*, y newyddiadur wythnosol ad-

nabyddus a gyhoeddir yn Nghaerfyrddin, o dan y penawd—"Darlithiau yn Llanelli—TERFYSG GWARADWYDDUS."

"Nos Lun diweddaf, fel yr oeddid wedi crybwyll o'r blaen, traddododd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, ei ail Ddarlith yn yr Athenæum, ar Undod Duw. Yr oedd yr ystafell y tro hwn etto yn orlawn, ond yr oedd wedi ei llenwi gan y gynnulleidfa mwyaf direol—*rowdy mob* yw yr ymadrodd mwyaf cymhwys i'w desgrifio, er eu bod yno yn enw gwir grefydd. Daeth y Darlithydd rhyw ddeng mynud yn rhy ddiweddar, ac yn y cyfamser, esgynodd y Parch. T. Johns, Gweinidog Capel Als, i'r platform yn nghanol banllefau, 'Pwy dalodd am yr Hall? Nid chwi, ond yr Undodiaid!' a dywedodd, gan nad oedd yn debyg y gwnai y darlithydd ddyfod, y carai eu hanerch am ddeng mynud ar yr olwg gywir neu uniawngred ar y Duwdod. Ond gyda'i fod yn dechreu goleuo ei wrandawyr ar y pwnc, daeth y darlithydd yn mlaen i'r platform, ac aeth gweinidog Als i ffwrdd. . . . Dymunai y darlithydd i argraffu ar eu meddyliau y ddyledswydd o rydd-ymofyniad, er mwyn cyrhaedd syniadau iawn, ac er mwyn deall y fath bwnc yn briodol. Nid oedd ganddo ef un amcan arall mewn golwg ond dyfod o hyd i'r gwirionedd, a gobeithiai mai dyna oedd amcan pawb ereill. Ar ol iddo derfynu yn y modd mwyaf dwys, gan gymhell ei wrandawyr i daflu ymaith bob rhagfarn, darfu i'r Parch. T. Davies, Siloah, yr hwn oedd wedi bod yn ddiwyd yn cymeryd nodiadau, ac yn ymddangos fel yn barod i frwydr, godi i fyny ar un o'r meinciau a gofyn i'r darlithydd a oedd e'n caniatau dadleuaeth, ac yn barod i ateb gofyniadau; i'r hyn yr atebodd y darlithydd mewn modd tawel, nad oedd e' ddim wedi bwriadu cael unrhyw ddadleuaeth gyhoeddus, o'r hyn leiaf nid ar yr amser hwnw; ond gallasai y llefarwr hurio yr *hall* ar ryw noson arall, a thraddodi darlith mewn atebiad. Ac yr oedd yr argraffwasg yn agored iddynt, lle y gellid ymresymu y cwestiwn. Darfu i'r mynegiad hwn greu y terfysg mwyaf annesgrifiadwy. Chlywid dim ond hwtio, oernadu, hysio, a gwaeddi ar Mr. Davies, Siloah, i fyned i'r *platform*. O'r diwedd 'fe aeth i'r *platform*, a chanlynwyd ef yn fuan gan y Parch. Thos. Johns. Yr oedd y darlithydd, gan dybied fod ei waith ar ben, yn parotoi i ymadael, pryd y coddodd y fath storom o fanllefau, 'coward,' 'ach,' 'trowch e' ma's,' &c., &c., na chlywir dim eu cyffelyb ond yn amser gwaethaf yr etholiadau, os yn wir y pryd hwnw. Ar hyn trodd y darlithydd yn ol, ac eisteddodd ar gadair, er dangos nad oedd e' ddim i gael ei ddychrynu gan haid o derfysgwyr. Esgynodd Mr. J. A. Williams i'r *platform*, ac fel Trindodwr gofynodd am chwareu teg i'r darlithydd, gan ei fod wedi hurio ac wedi talu am yr *hall*, ac nad oedd gan neb arall hawl i gynnal cyfarfod yno y noson hono. Wnaeth hyn ddim ond gwneyd y swn a'r terfysg yn waeth. Yr oedd yr hysio, yr oernadu, a'r gwaeddi, 'trowch e' ma's,' 'ciciwch e' ma's,' 'lawr ag e',' yn ddychrynllyd. O'r diwedd cafwyd ychydig drefn, a dechreuodd gweinidog Siloah i wneyd araeth ac i ymresymu ar y pwnc. Yr oedd llawer o derfysg yn parhau o hyd, llawer yn gadael y lle gan fod yr ystafell mor llawn, y gwrandawyr yn sefyll ar ben y meinciau, yn rhuo fel anifeiliaid gwylltion, a phryd bynag y ceisiai y darlithydd amheu y Parch. T. Davies, neu i gywiro ei haeriadau, ni wrandewid arno, felly gadawodd y lle ar ol cyhoeddi y byddai yno etto yn mhen pythefnos. Parhaodd y terfysg am ryw amser, y ddau weinidog—y Parchn. T. Johns a T. Davies—a'r gynnulleidfa yn *pelto* adnodau at eu gilydd. Dywedai y Parch. T. Johns fod athrawiaeth y darlithydd wedi gwneyd *rebels* o'r bobl. Yr oedd ymadroddion ag oeddent yn bobpeth ond boneddigaidd yn cael eu cyfnewid rhwng y gweinidogion a'r bobl, a chymmerodd *scuffle* le yn agos i'r *platform*, trowyd y *gas* allan, ond yn ffodus ni chymmerodd un ddamwain le. Yr oedd sel yr amddiffynwyr 'uniawngred' yn ddiamheu wedi myned tuhwnt i derfynau pwyll a doethineb, ac nis gallent gadw eu *mob* o gyfeillion a chanlynwyr yn

ddigon o dan lywodraeth. Yr oedd bygythion o ymosodiadau personol yn cael eu defnyddio yn rhydd at y darlithydd, ac mae'n syndod iddo ymadael heb ei niweidio. Yr oedd y gwrthwynebiad a wnaed wedi ei drefnu yn mlaenllaw, gyda'r unig amcan i ddystewi ac atal rhydd-ymofyniad. Mae y blaid Radicalaidd mewn gwleidiadaeth, ond Toriaidd mewn crefydd, yn ofni rhag i syniadau neb ond eu heiddo eu hunain hyd y nod i gael eu gwneyd yn adnabyddus. Gall 'iawnffyddiaeth' a 'gwir grefydd' yn briodol iawn weddio am iddynt gael eu gwaredu oddiwrth eu cyfeillion. Nid oes rhyddid barn na rhyddid llafar yn cael eu caniatau yma gan haid o derfysgwyr ydynt yn dyfod yn uniongyrchol o'u cyfarfodydd gweddi i ymddwyn fel ynfydion a phenboethiaid."

Aberdar, Tach. 20*fed*, 1875. W. J.

ADOLYGIAD Y WASG.

Cyfraith y Cymdeithasau Cyfeillgar (1875), 38 a 39 Victoriæ, Pen. 60. Cyfieithedig gan J. Howell. Aberdar: Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan Jenkin Howell. 1875. Pris Swllt.

Da genym gyfeirio sylw darllenwyr Yr Ymofynydd at y cyfieithad yma o'r *Friendly Societies' Act*. Mae'r cyfieithad yn llithrig iawn, ac yn ddealladwy; yr argraffiad a'r papur yn dda. Gobeithiwn y try yr anturiaeth allan yn y fath fodd ag i ddigolledu yr awdwr, a thalu iddo am ei drafferth. Sylwn ei fod yn cael ei werthu am Swllt, tra mae'r gwreiddiol yn gwerthu am ddeunaw.

Health in the House:—*Twenty-five Lectures on Elementary Physiology in its application to the daily wants of Man and Animals, delivered to the Wives and Children of Working Men in Leeds and Saltaire, by Catherine M. Buckton, Member of the Leeds School Board. Third Edition. London: Longmans, Green & Co.*, 1875.

O bob llenyddiaeth yn y Gymraeg, llenyddiaeth o'r natur a geir yn y llyfr o dan sylw yw y mwyaf prin; ac o'r cwbl ag sydd yn dwyn cyssylltiad â'r bywyd hwn, hyhi yw y mwyaf gwerthfawr ac angenrheidiol. "Iechyd yn y tŷ." Gan nad faint fyddo galluoedd meddyliol, dysg a dawn dyn; gan nad beth fyddo'i sefyllfa wladwriaethol, a chan nad faint fyddo'i gyfoeth daearol, heb iechyd, nid yw ond gwagnod (*cipher*) yn mysg ei gyd-ddynion wedi'r cwbl. Mae y llyfr hwn yn un o'r rhai mwyaf syml, etto cynnwysfawr ac ymarferol ar y pwnc a ddarllenasom erioed. Y mae yn cynnwys hufen llawer iawn o'r llyfrau goreu ar elfenau Anianyddiaeth, yn ei chyssylltiad ag angenion dyddiol dyn ac anifail; a thrueni na ellid ei gael yn y Gymraeg. Dylai pob tad, pob man, ac ereill ag ydynt yn gofalu am deuluoedd feddu copi o'r llyfr hwn, neu rywun cyffelyb iddo, a gwneyd eu hunain yn hyddysg yn y wybodaeth werthfawr a gynnwysa. Trueni meddwl fod cynnifer o dadau a mamau yn ein gwlad mor anwybodus o egwyddor-

ion mwyaf syml iechyd. Hyn yw yr unig gyfrif a ellir roddi am yr holl glefydau, yr anffurfiaethau corfforol, a'r holl farwolaethau anamserol a gymmerant le yn ein plith. Byddai yn ddymunol iawn gweled ein Byrddau Iechyd, ac awdurdodau trefol ereill yn talu mwy o sylw i'r pwnc hwn. Nid yw ffurfio yr heolydd a gosod calch yn y cwteri, er yn dda, yn ddigon. Credwn yr atebent ddybeu eu bodolaeth yn well pe byddai iddynt argraffu a dosparthu hyfforddiadau syml ac ymarferol o berthynas i iechyd yn mhlith trigolion eu gofal. Ca yr awdures dalentog ganmoliaeth gyffredinol y Wasg Seisnig, ac yr ydym yn deall fod ei llyfr eisoes wedi ei gyfieithu i'r Ffrancaeg a'r Germanaeg. Er dangos ei nodwedd ddarllenadwy, rhoddwn yma gyfieithad o'r sylwadau arweiniol i'r ddarlith ar effaith niweidiol gwirodydd meddwol ar y cyfansoddiad dynol :—

"Yn awr, yr wyf yn myned i ddweyd wrthych am y niwed a wna gwirod i wahanol ranau y corff. Dyoddefa meddwon lawer iawn oddiwrth anhwylderau yr ystymog yn ogystal ag oddiwrth yr afu, o herwydd rhaid i'r holl wlybyroedd a gymmerwn basio drwy yr ystymog cyn yr ant at yr afu.

"Dichon eich bod yn synu sut y mae meddygon wedi bod yn alluog i gael allan pa fodd y mae bwyd yn treulio yn yr ystymog, a pha fodd y maent yn gwybod rhifedi yr oriau a gymmer y gwahanol fwydydd i dreulio. Daethant i feddiant o lawer iawn o'r wybodaeth hon drwy ddamwain a ddygwyddodd yn America i un o drigolion Canada a elwid Alexis St. Martin, oddeutu deugain mlynedd yn ol. Saethwyd ef a *bullet*; aeth y *bullet* trwy ei ystymog, a gadawodd dwll mor fawr fel ag y gallai Dr. Beaumont, y meddyg enwog a weinyddai arno, weled yr oll a gymmerai le yn ei ystymog am flynyddau lawer. Dygwyddodd y ddamwain Mehefin y 6fed, 1832. Ni oddefai Alexis St. Martin i'r agoriad gael ei gau, gan nad oedd yn effeithio ar ei iechyd. Yr oedd yn mwynhau iechyd ardderchog, a threuliai ei ymborth mor gysson â phe na buasai yr agoriad erioed wedi ei wneyd. Treuliodd rai blynyddau fel gwas gyda Dr. Beaumont. Yn union ag y cymmerai *frandy*, neu pan elai unrhyw fath o wirod i'w ystymog, elai y bilen ruddgoch dlws a orchuddia yr ystymog, a ddarluniais i chwi o'r blaen, yn anarferol o goch. Pan fyddai wedi cymmeryd gwirod am ychydig ddyddiau, ymddangosai cornwydydd dolurus. Ymddangosai hylif y cylla wedi sychu fyny, fel nas gallasai y cig gael ei dreulio. Elai yr *albumen* (hylif tebyg i wyn wy) yn galed, yn debyg fel pe byddai wedi cael ei goginio mewn dwfr berwedig. Yn union ag y rhoddai St. Martin i fyny y gwirodydd, diflanai y cornwydydd, deuai y swm priodol o'r hylif cylläol allan o'r ystymog, a deuai y treuliad yn briodol drachefn."

ESGUSODION.

Parhad o tudalen 210.

Ond nid ydym wedi darfod a'r person yma. Gofynwn etto, a oedd efe yn ddyn rhinweddol a hapus? A ydych chwi yn foddlon gosod eich llaw ar eich calon, a dywedyd wrthyf yn gydwybodol eich bod yn gwybod ei fod yn ddyn rhinweddol? Allwn ni ddim llai na meddwl y buasech wrth ei ddylyn a sylwi yn fanol arno am rai misoedd, yn cael allan ei fod yn ddyn anfoesol, neu o leiaf ddim mor bur ag y meddyliech ei fod, a dim mor ddedwydd ychwaith ag yr ymddangosai i chwi ar yr olwg gyntaf. Caniatawn, os ydych yn dewis, ei fod yn

onest yn ngoruchwylion cyffredin bywyd ac yn ymddangos yn burion mewn cymdeithas, gall hyny fod; y mae barn y cyhoedd ac elw bydol yn gymhelliad i hyny, neu i beri iddo ymddangos felly. Gwyr pe nad ymddangosai felly y buasai yn colli ei ddylanwad ar y cyfryw, ac yn methu cyrhaedd ei amcanion bydol. Ond—dyma y cwestiwn pwysig yn wir—a ydych chwi yn sicr ei fod yn bur a sanctaidd yn y dirgel? A fuasech chwi yn ymddiried i'w ofal ef rhyw drysor gwerthfawr yn eich golwg, wedi iddo ymneillduo oddi wrth y byd, neu wedi iddo droi ei gefn arnoch? A oedd y dyn yn gyfryw y carech ac y buasech gyda boddlonrwydd yn ymddiried gofal eich priod a'ch plant iddo? A fuasech yn awyddus i ddanfon eich anwyliaid bychain dan ei ofal i'w dwyn i fyny mewn gwybodaeth, ac mewn moesoldeb a chrefydd? Diau y gwyddoch am lawer o fewn cylch eich cyfeillion Cristionogol na fuasech yn petruso gwneyd felly o gwbl. Oes, y mae llawer yn mhlith y cyfryw ag y carech yn fawr osod eich plant dan eu gofal, oblegyd fod genych ymddiried yn eu gonestrwydd, eu geirwiredd a'u crefydd. Er mwyn ymresymiad ni a ganiatawn ei fod yn ymddangos yn ddedwydd, ac hyd y nod yn llawen ar faes helaeth y byd ar hyd y dydd, ac yn awyddus i ymddangos mor ysgafn a'r mwyaf ysgafn a llon. Nid peth annghyffredin i'r mwyaf anhapus a gresynus braidd eu cyflyrau i ymddangos felly yn arwynebol gyda golwg i dwyllo ereill. Dywedir fod y blaidd am ymddangos fel mewn croen dafad, a bod yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid am ymddangos i ddynion fel y cymmeriadau mwyaf crefyddol; a dywedir fod Judas am ymddangos i'r Iesu yn y cymmeriad o gyfaill pan oedd brad adichell yn ei galon. Ond—dyma y cwestiwn mawr etto—a ydych chwi yn berfaith sicr nad oedd yn teimlo dim un anesmwythdra oblegyd ei anffyddiaeth yn nhywyllwch y nos, a phan nad oedd yr un llygad dynol yn ei ganfod ef? Onid oedd, feddyliech chwi, yn un achos o boen? Elai i'r man y mynai, ni allai, debygwch chwi, ganfod dim yn byd mawr yn profi fod Bod anfeidrol berffaith, ei Greawdwr, ei ewyllysiwr da, ei Dad tyner a thosturiol, o flaen yr hwn y gallasai agor ei galon gyd ag ymddiried a pharch mabaidd? Onid oedd hyn yn un achos o boen iddo ef debygwch, sef pan yn edrych yn mlaen, ar rai adegau, ei fod yn methu canfod a mynwesu cymmaint ag un wreichionen o obaith am fodolaeth tu draw i gyffiniau amser. A ydych chwi yn meddwl ei fod, pan yn myfyrio felly ar y dyfodol, yn mwynhau yr un cyssur a'r un teimladau nefol a'r dyn hwnw sydd yn credu fel arall? Heblaw hynyna, fy nghyfaill, a welsoch y dyn yma erioed mewn gofid? A welsoch chwi y dyn yma erioed wrth echwyn gwely plentyn, gwraig neu gyfaill ar drengu yn yr angeu? A ddymunech chwi am ddim a welsoch erioed, gyfnewid cyssuron y Cristion am ei gyflwr meddwl ef? A welsoch chwi y dyn yma erioed yn cael ei demtio gan brofedigaeth gref i wyro oddiar ffordd uniondeb a chyfiawnder er mwyn sicrhau rhyw elw bydol? Ac a ddarfu iddo ef ei gwrthwynebu yn gadarn? A welsoch chwi y dyn yma erioed yn gorwedd ar wely cystudd, a safn y bedd megys yn agored o'i flaen? Ac a oedd yn ddigyffro? A oedd yn dawel? A oedd yn ddedwydd?

Gadawn i'r llen syrthio bellach dros olygfa olaf yr hwn nid adwaenai Dduw, a chan yr hwn nid oedd rhith gobaith am anfarwoldeb, ac awn yn mlaen i siarad am bethau mwy cydweddol a'n natur fel creaduriaid rhesymol ein Creawdwr doeth a da.

Crefydd a'i sefydliadau ddim o un neu ychydig pwys yn ei pherthynas â rhinwedd a dedwyddwch dynol! Yna, paham y mae mor amlwg ein bod ni wedi ein creu i fod yn grefyddol? Paham y mae dynion yn yr oesau mwyaf tywyll, a'r gwledydd mwyaf anwareiddiedig wedi dyfod i'r casgliad fod rhyw un mawr, anfeidrol fawr, yn teyrnasu ar y bydysawd? Pa fodd y mae yn dygwydd fod megys greddf grefyddol yn blanedig yn natur y mwyaf anwar a thywyll?

Crefydd a'i sefydliadau ddim o un neu ychydig pwys yn ei pherthynas â rhinwedd a dedwyddwch dynol! Yna, paham y mae y greadigaeth allanol yn ymddangos fel pe byddai wedi ei chreu i'r dyben o greu a meithrin teimladau duwiol ynom ni? Paham y mae mawredd ac ardderchogrwydd y greadigaeth yn siarad wrth ddyn mewn iaith amlwg, eglur ac anwrthwynebol, am ddoethineb a gallu y Creawdwr? Paham nad all pob dyn pwyllog ac ystyriol lai na gweled profion o gariad yr Anfeidrol yn mhob man, ac yn mhob peth? Paham y mae rhywbeth yn blanedig yn natur dyn sydd yn yngan yn ei glustiau nad yw yr ystad bresenol ond un rhagbaratoawl i fyd gwell; y byd mae y Tad nefol, yn ei amrywiol oruwchwyliaethau yma ar y ddaear, megys yn tynu ei blant ato ei hun, ac yn peri i rai o honynt hyd y nod i hiraethu am ddydd eu hymddattodiad, er cael bod gyda Christ mewn byd a bywyd gwell?

Crefydd a'i sefydliadau ddim o un pwys yn ei pherthynas a rhinwedd a dedwyddwch dynol! Yna, paham y mae genym dystiolaeth unedig miloedd ar filoedd, ie, pawb sydd wedi teimlo gwir allu crefydd, mai pob teimlad o ogwyddiad at Dduw a phob gobaith am fyd ar ol y byd presenol yw yr unig bethau mae dyn yn sefyll mewn angen am danynt, ac wedi ei addasu i lanw ei feddwl a'i enaid a'r dysgwyliadau â'r gobeithion addasedig i'w ddal i fyny a'i amddiffyn, ei gyssuro a'i galonogi; ac hefyd i'w wroli i ymladd brwydr fawr bywyd mewn modd teilwng o filwr da i Iesu Grist? Bid sicr, os oes un pwnc wedi cael ei benderfynu trwy dystiolaeth miloedd o ddynion dan wahanol amgylchiadau bywyd; os oes un gwirioniedd wedi cael ei brofi, a'i gadarnhau criood, y mae yn ffaith fod y gwirioniedd canlynol wedi, ac yn wir yn cael ei brofi: dyma fe, sef, na all fod yr un amheuaeth yn nghylch fod crefydd bur a dihalog yn hanfodol i berffeithiad y natur ddynol.

Crefydd a'i sefydliadau ddim ond o ychydig neu ddim pwys yn ei pherthynas â rhinwedd a dedwyddwch dynol! Yna, sut y mae cyfrif am oruwchwyliaethau y Bod goruchaf at ei blant yn mhob oes? Sut y mae cyfrif am ymdriniadau Duw y nef â'i bobl ddewisedig, yr Iuddewon? Sut y mae cyfrif am linell faith proffwydoliaeth, yr hon nad ydyw wedi cael ei chyflawnu yn hollol etto? Sut y mae cyfrif am lafur caled yr apostolion, y diwygwyr, y merthyron a lledaeniad a buddugoliaethau Cristionogaeth—yr oll ydynt yn dangos ac yn profi

mewn modd anwrthwynebol, allu a doethineb uwchlaw natur, ac yn gweithredu er daioni moesol yr hil ddynol? Onid yw yn ffaith, edrychwn i ba gyfeiriad y mynom, pa un ai yn mhlith cenedlaethau neu weriniaethau llai, cin bod yn cael heb un eithriad, lle y mae crefydd leiaf adnabyddus ac y teimlir hi leiaf, taw yno y mae y bobl fwyaf isel a diraddiol, anhapus a gresynus; a lle y deallir crefydd oreu ac y dygir hi i ymarferiad yn ei phurdeb a'i gallu sancteiddiol, taw yno mae y bobl fwyaf gwareiddiedig a golcu, mwyaf rhinweddol a dedwydd? Ni all un amheuaeth fod yn meddwl y diragfarn gyda golwg ar y ffaith hon. Onid yw yn wirionedd mai i'r graddau y mae dynion yn cynnyddu mewn gwybodaeth, mai i'r graddau hyn y y maent yn cynnyddu mewn dedwyddwch, ac onid yw yn ffaith mai i'r graddau ydym yn ymdebygoli i Dduw a'i Grist Ef, y teimlwn ein rhyddid yn ymeangu, ac y teimlwn hefyd fwyaf hapus a nefol. A oes lle i ddadl i fod gyda golwg ar hyn, sef pa un ai y dyn da neu y dyn drwg sydd fwyaf dedwydd? Chwi, gan hyny, ydych wedi arfer dwyn esgusodion gwael yn mlaen dros beidio gwneyd eich goreu i ledaenu crefydd y Crist croeshoeliedig yn y byd, na ddygwch hwynt mwyach yn y blaen; ond yn hytrach dangoswch a phrofwch fod yr Iesu, trwy ei wirionedd a'i esampl, yn dylanwadu arnoch yn y fath fodd ag i beri i chwi fod megys cangenau byw o'i wir winwydden, neu megys rhai fyddo yn gadael i'ch goleuni i lewyrchu yn mhlith eich cyd ddynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. Diau fod pob tuedd yn yr ystyriaethau sydd wedi bod dan ein sylw a'u cyffelyb, i greu ynom ni ddyddordeb mewn crefydd a'i sefydliadau.

Yn awr, gadawn y pwnc pwysig yma i'ch sylw manwl a difrifol, gyda rhoddi pob cymhelliad i chwi, yn enw pob peth sydd hawddgar a deniadol yn nghymmeriad Duw cin Tad—yn enw pob peth sydd deilwng o edmygedd a diolchgarwch yn Iesu Gaist—yn enw pob peth sydd ardderchog a gogoneddus mewn rhinwedd a defnyddioldeb—yn enw pob peth sydd yn rhoddi i'm hoddwch a llawenydd ar y ddaear, ac yn cin cymhwyso i fwynhau y nefoedd, —felly i ystyried o hyn allan yn bwysig beth bynag sydd yn perthyn i grefydd a'i sefydliadau, a thrwy ei dylanwad bendigedig, y bydd i chwi gael eich gwneyd yn gyfranogion yn y byd hwn a'r hwn a ddaw o'r llawenydd a'r mwynhad ysprydol hwnw mae Duw wedi ei addaw i'r rhai a fuont ffyddlon hyd angeu, a'r rhai yn unig ydynt deilwng o ddyfal ymchwil ac ymgais bodau rhesymol a chyfrifol fel nyni. S. B.

Pam?—Yr oedd dyn ieuanc mewn ffordd deg i gael swydd gyda chyflog dda. Dodwyd cyfaill iddo i edrych allan yn mhle y treuliai ei nosweithiau. Treuliai amryw yn y *billiard room*, a'i mewn Suliau gyda thri chyfaill allan yn y wlad am *drive*. Yr oedd y dyn ieuanc yn methu deall pam na chafodd y swydd. A yw'r darllenydd yn ddigon o ysgolhaig i wybod *pam?*

Manion.

GWELL iechyd nâ golud.
HEB iechyd, heb bob peth.
COF yw trysorgell y meddwl.
Y LLYGAD craffus yw'r athraw goreu.
FEL y berweddwn rhaid i ni yfed.
PEIDIWCH ffraeo â'ch bara a chaws.
COSTIA fwy i ddial cam nâ'i ddwyn.
GWRAIG ufudd a lywodraetha ei gwr.
NI ddaeth drwg erioed o gynghor da.
RHINWEDD yn unig sydd ddedwyddwch.
BYTH byth nid adferir yr enw da a gollir.
Y LLAFUR a garwn a dangnefedda boen.
MELUS yw adgofion bywyd rhinweddol.
DYN ffol a gynneua ddau pen y ganwyll.
DECHREU'N dda yn weddol, dybenu'n dda yn well.
HUNANOLDEB sydd yn rhwystr i ddoethineb.
Y DYN ei hun a wyr b'le mae'i esgyd yn gwasgu.
Y MAE Bacws wedi boddi mwy o ddynion nâ Neptiwn.
MAE achos da'n gwneyd calon ddewr a braich nerthol.
MAE dwfr a thân yn weision da, ond yn feistriaid canolig.
GWELL y tân bach a wresogo nâ'r tân mawr a losgo.
SIARADWCH yn dda am eich cyfaill, peidiwch dweyd dim am eich gelyn.
YN nghysgodau duaf dyn, daw'n fynych wawr o'r nef.
MAE gwirionedd yn graig eang ddigon i bawb sefyll arni.
YR hwn a wna gam â chwi ni faddeua i chwi byth.
CHWILIWCH hyd oni chewch ac ni bydd eich llafur yn ofer.
PEIDIWCH cyfrif eich cywion cyn byddont wedi gori.
GWNA gymmedrolder yn gyfaill i ti, ac iechyd a eistedda ar dy ael.
BERNIR dyn, fel oriawr, wrth y modd y mae'n myned.
TALWCH ffordd yr eloch ac ymgedwch rhag coel.
MAE gweniaith fel cyfeillgarwch mewn ymddangosiad, ond nid mewn ffrwyth.
TRWY ffaeleddau ereill y diwygia'r doeth yr eiddo ei hun.
CYNGHORWCH, nid yr hyn sydd hyfryd, ond yr hyn sydd ddefnyddiol.
MAE i gerddoriaeth swynion a dangnefiant fynwes yr anwariad.
LLAWER o blant ac ychydig o fara sydd bleser poenus.

Os mynwch wneuthur gelyn, rhowch arian yn fenthyg, a gofynwch am dano yn ol.
TRWY anwybodaeth y camsyniwn, a thrwy ein camsyniadau y dysgwn.
MAE cerddoriaeth yn mhob peth, pe byddai gan ddynion ond y clustiau.
MWY peryglus yw cwilsen gwydd nâ phawen llew.
Ni ddylai cadno fod ar y *jury*. lle byddo gwydd ar ei threial.
MAE'R adar yn talu cyffelyb anrhydedd i bawb dynion.
MAE henaint, er yn cael ei ddirmygu, etto yn cael ei ddymuno gan bawb.
GWYBODAETH yr ieuange yw doethineb yr hen.
NID yw diod gadarn yn cadw dirgelion *(secrets)*, nac yn cyflawnu addewidion.
GWELL yw bara sych gartref, nâ chig rhost oddicartref.
CAWELL boddlonrwydd a bedd gofal yw diwydrwydd.
ADWAENIR gwerth peth yn oreu trwy yr angen o hono.
RHAID i hwnw godi'n fore a fedr foddio pawb.
NID aiff cyfreithiwr doeth byth i gyfraith ei hunan.
MAE gan wenynen fêl yn ei genau, ond colyn yn ei chynffon. Felly hefyd pleser yn fynych.
YR ANYSTYRIOL.—Mae'r dyn diystyr yn gyffelyb i lythyr heb ei selio, yr hwn sydd yn anfynych yn werth ei ddarlleu.
I GINIAW.—Gofynwyd i hen wr lled ddigrif, beth fynai i giniaw, ac yntau a atebodd, "ystymog, cwmpeini da, rhywbeth i'w fwyta, a napcyn."
WEDI EU RHEWI YN NGHYD.—Gofynwyd i offeiriad unwaith os oedd aelodau ei gynulleidfa yn unol â'u gilydd. Atebodd eu bod yu berffaith unol—*wedi eu rhewi yn nghyd.*
Y BACHGEN DI-AILANEDIG.—Y foneddiges dda yn siarad: "Fachgen bach, a ydych chwi erioed wedi cael eich bedyddio?" Y pagan bach yn ateb; "O, ydwyf mum, mae'r marciau genyf fan yma ar fy mraich."
GWNEUTHUR DAIONI.—Byddai'r hwn a ddysgwyliai, oherwydd rhoddi dracht o ddwfr i ddyn sychedig, gael derbyn fferem fawr yn dâl, byddai hwnw yn gymmedrol yn ei ddysgwyliadau, mewn cymhariaeth i'r cyfryw hyny ydynt yn tybied eu bod yn haeddu nefoedd am yr ychydig ddaioni maent yn wneuthur ar y ddaear.

Y Paham.—Dywedodd areithiwr mewn cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar, fod yr arwyddair, "Byddwch dyner o'ch mam," wedi ei argraffu yn ddwfn ar ei feddwl ef pan yn ifanc iawn, am ei fod wedi ei gerfio ar ben bon *horsewhip* oedd yn hongian bob amser gogyfer â'r gwely lle'r arferai efe gysgu.

Congl yr Holiedydd.

PRIS Y GLO.

Carwn yn fawr gael ychydig o oleuni ar yr egwyddorion sydd yn llywodraethu y farchnad. Y mae pris y glo yn dal cyssylltiad agos â fy mara a chaws. Felly, byddaf yn ddiolchgar am wybod rhywbeth mewn perthynas i'r gofyniadau canlynol:—(1.) Pa beth sydd yn rheoli codiad a gostyngiad y farchnad? (2.) Pa beth yw dylanwad *strikes* ar bris y glo? Pa mor bell maent yn debyg o'i godi, neu rwystro ei ostyngiad? (3.) Pa mor bell mae a fyno ewyllys y meistr neu y gweithiwr â phris y glo? (4.) Onid oes llais gan drydedd person, sef y prynwr, yn mhenderfyniad pris y glo? A pha mor bell y mae ganddo ddylanwad ar bris y glo? (5.) Beth yw cyfartaledd y glo â'r hwn y gwneir haiarn a'r gloion ereill?—neu y glo allforawl a'r glo tai? Pa faint o werthu o bob un sydd yn y wlad yma?

Morganwg.

ACROSTIC YSGRYTHYROL.

1. Dyn yn dal swydd uchel a fu bron cael ei wneyd yn Gristion?

2. Cyfaill i'r Apostol Paul yn ei lafur, ei deithiau, a'i garchar?

3. Gweddw oedranus, yr hon am ei hymlyniad diysgog wrth wasanaeth y Deml, a gafodd ei gwobrwyo â'r fraint fawr o gael gweled y Messeia addawedig yn y cnawd.

Mae'r llythyrenau cyntaf a diweddaf, a'u cymmeryd yn ol neu yn mlaen, yn rhoddi enw Brenin am yr hwn y dywedir ei fod "yn berffaith gyda'r Arglwydd ei holl ddyddiau ef."

Athraw.

Gohebiaeth.

EIN CYRDDAU CHWARTEROL.

Mr. Gol,—Pan yn ysgrifenu fy llythyr blaenorol, yr oeddwn yn teimlo yn dra gobeithiol y byddai y pwnc dan sylw yn debyg o greu dyddordeb nid bychan yn mhlith darllenwyr yr Ymofynydd, ac y byddai i'ch lluaws Ohebwyr roddi cymhorth i ddwyn oddiamgylch welliant yn null a dyben cynnaliaeth ein Cyrddau Chwarterol a Blynyddol; ond y mae eu dystawrwydd yn rhoddi lle i feddwl eu bod yn hollol foddlon ar y drefn bresenol, ac yn eu plith eich Gohebydd U. O. T. Yn sicr, nid wyf yn gallu canfod beth sydd yn fy ysgrif yn annymunol, oddieithr fod U. O. T. yn perthyn i'r *Tories*, ac felly yn ystyried pob cynnyg at ddiwygiad yn annymunol.

Nodais yn fy llythyr blaenorol amrywiol bethau, ac yr wyf yn credu pe mabwysiedid hwynt y byddent yn debyg o ddwyn ffrwythau da.

Yr wyf wedi mynychu ychydig o'n Cyrddau Chwarterol a Blynyddol, ac yr wyf yn cytuno ag U. O. T. mewn perthynas i'w hamcanion, ac yn mhellach, yr un amcanion sydd mewn golwg yn ein gwahanol Gapeli ar y Suliau, ac felly, os dyma yn unig yw dyben ein Cyrddau Chwarterol a Blynyddol, pa angen sydd am gyfleusderau ereill heblaw y Sul? Ond tybiaf fod galwedigaeth arall i'r Cyrddau Chwarterol a Blynyddol

dylent ateb rhyw ddybenion pellach nâ'r hyn a nodir gan eich Gohebydd. Y mae'n flin i feddwl mor lleied yw ein llwyddiant wedi bod yn Nghymru mewn cymhariaeth i'r enwadau ereill yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf. Ofer yw dweyd fod ein syniadau yn oerach nag eiddo'r iawn-dyb, ac felly yn methu cael yr un dylanwad ar y werin. Credwyf fod Undodiaeth yn meddu ar gymmaint o wresogrwydd, ac yn alluog i roddi cymmaint o gyssur ag unrhyw ffurf o grefydd, ac mai yn unig yn eu peirianaeth *(organization)* mae yr enwadau ereill yn rhagori arnom. Y ffaith yw fod rhy fach o gydymdeimlad yn bodoli rhwng ein gweinidogion a'u gwrandawyr, a rhwng ein gwahanol gynnulleidfaoedd; ac yr wyf yn credu y byddai yn *step* dda yn y cyfeiriad hyn pe byddem yn cael llai o bregethu a mwy o siarad cyfeillachol ac ymarferol. Dealled U. O. T. mai nid cwrdd esponio yr wyf yn olygu, ac nad wyf wedi son am un o'r fath, a phe bai angen gallwn wrthbrofi ei ddywediad o barthed i'r cwrdd prydnawn yn Sir Forganwg. Cofied U. O. T. hefyd mai nid y *doeth* bob amser yw y dyn mwyaf defnyddiol, a diau fod digon o ddoethineb a gallu yn mhlith Undodiaid Cymru i wneyd llawer o ddaioni dim ond cael yr *organization* yn dda.

Cyn terfynu y waith hon, maddeued i mi am wneyd un awgrymiad pellach. Y mae yn dra gwybyddus yn awr fod y Parch. Jno. Davies, Alltyplaca, wedi ei neilldio gan y *British and Foreign Unitarian Association* i fod yn Genadwr yn Nghymru, ond dim ond am chwech mis. Beth pe baem yn y Cwrdd Chwarterol nesaf yn cymmeryd dan ystyriaeth y cynllun goreu i gadw Cenadwr sefydlog yn y lleoedd mwyaf gobeithiol?

Ap C.

Marwgof.

Hyd. 13, yn 81 oed, Jane Lewis, High Street, Cefncoedycymer, yr aelod henaf yn yr Hen-dy-Cwrdd. Cafodd ei derbyn dan weinidogaeth y Parch. Thomas Davies, tua 60 mlynedd yn ol. Yr oedd yn hen wraig dawel, bwyllog, a bu'n ofalus am ei chydgynnulliad o'r dechreu hyd y diwedd. Sadwrn canlynol hebryngwyd ei gweddillion i orphwys i fynwent yr Hen-dy-Cwrdd, pryd y gweinyddodd y Parch. W. James, B.A., Aberdar. Heddwch i'w llwch.—*W. Harries.*

Barddoniaeth.

"MELUS YW HUN Y GWEITHIWR."

Dan leni prudd yr hwyr,
Gorphwysa'r gweithiwr blin;
'Does ond efe a wyr
Ddedwydded yw ei hun.

Mae wedi treulio dydd
Helbulus, caled iawn;
Yforu tebyg fydd,
O'r boreu hyd y nawn.

O santaidd, nefol hun,
Anfeidrol yw ei gwerth;
Rhydd i'r lluddiedig ddyn,
Ei adnewyddol nerth.

Ag un sidanaidd law
Y bydd yn siglo'i gryd;
A'r llall y ceidw draw
Ofalon aml y byd.

Ei feddwl arwain wna,
Ar ryw wibdeithiol hynt;
A golwg eglur ga
Ar deulu'r amser gynt.

Ca etto ddechreu byw
Oes newydd a dinam,
Dan nawdd ei riaint syw,
Ar aelwyd glyd ei fam.

Fe'i dwg uwch ser y ne',
Ar edyn nefol ryw,
I'r anweledig le—
Hyd lenyrch teulu Duw.

Ha gwsg! felused yw
Dy adgyfnerthion cun;
Rhodd wyt o eiddo Duw,
I ddedwyddoli dyn.

J. H. A.

NAPOLEON "FAWR."

(THACKERAY.)

O ddryllian dygodd lawer mil,
Gosododd "Mawr" yn nglyn â'i enw;
Er hyn, *cywilydd* rodd i'w hil
Yn *ctifeddiaeth* pan fu farw.

Bu'n meddu unwaith hanner byd,
Pan farw nid oedd troedfedd ganddo;
Ei elyn benthyg iddo ddyd
Ei "hyd a'i led" er gorwedd ynddo.

Ennillodd lawer brwydr fawr,
A buan cododd i anrhydedd;
Yn rhywle uwch y sêr yn awr
Gall ddweyd, efallai, beth yw mawredd!

Cyf. J. H. A.

"Y CYTHRAUL CANU."

"The man that hath no music in his soul,
And is not moved with concord of sweet sound,
Is fit for treason, stratagems, and spoils;
The motions of his spirit are dull as night,
And his affection dark as Erebus,
Let no such man be trusted."—SHAKESPEARE.

Mae llawer math o gythraul
Mae'n debyg yn y byd,
Dan amryw fath o enwau
'N cael byw a bod o hyd;
Ond gwaethaf o'r cythreuliaid
Yn ol fy meddwl i
Yw'r enw "cythraul canu,"
Mae hwn o liw mwy du.

Yn nhrefnaiant canu'r cyssegr
Mae ef am fod yn fawr,
Wrth godi'r canu i fyny
Aiff dan ei drefn i lawr;
Fe berodd ar amserau
I lawer, chwerw loes;
I rwystro pob rhyw welliant
Mae ef fel rhyw bren croes.

Ymrithia ar amserau
Yn Angel gwyn ei liw,
I ffugio sêl rhyfeddol
Dros Demel Santaidd Duw:
Er hyn, ceir prawf o'i hanes
Mae'i *motto* ef erioed
Yw mynu pawb a phobpeth
A'u gyddfau dan ei droed.

Pan welo radd o gynnydd
Yn mhlith hoff deulu'r gân,
Pryd hyn bydd ef yn gwgu,
Estyna'i big yn mla'n;
Ond d'weded pob rhyw gerddor
Mewn yspryd gwrol cry'—
"Dos yn fy ol i Satan
Can's rhwystr wyt i mi."

B. D. J.

DYMUNIADAU.

Fel gwyliwr blin, unig, yn nyfnder y nos,
Yn wylo am weled y wawrddydd fwyn dlos
Yn llifo drwy'r t'wyllwch fel ffrwd o aur pur,
Boed felly fy hiraeth am ganfod y *gwir*.

Fel plyga y plentyn i gyngor ei dad
O berffaith anwyldeb a chariad twymn mâd,
'Run modd i'r gwirionedd, boed i mi bob pryd
I blygu a gwrando'i alwadau i gyd.

Fel dyga hoff anian ei harddwch o'r cudd,
Gan ledu'i phrydferthwch yn llygad y dydd;
'Run modd y dymunwn ymwisgo yn glyd
Yn harddwisg gwirionedd, a'i ddangos i'r byd.

Y wedd y sycheda'r blodeuyn gwan, crin,
Am gawod adfywiol yn mhoethder yr hin;
O bydded i'm enaid sychedu 'r un wedd,
Am nerth Duw'r gwirionedd, y cariad, a'r hedd.

E. C. J.

ENGLYN Y PWD. (*Pout.*)

Mae cwd, pan fo pwd, fel padell—dan yr ên,
'Dwaenir hwy o hirbell;
Och! y pwys gynnwys y gell,
A digio lon'd y dagell.

B. D. J.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

D. T., Palmyra, America; R. P., Blaentrafle; J. E., Gwernogle; R. E., Cardiff; J. J. (Eiddil Cynon); T. D., Dolbwba; J. E., Newcastle; J. J., Hirwain Road; J. L. Dowlais; J. J., Cwmbargod; Rev. D. D., Lancaster; W. J., St. Bride's; T. J. P., Blaenddewifawr; D. D. Llanelly; T. H., Cymer; S. E., Frowen Farm; D. E., Troedyrhiw; P. R., Treorkey; J. E., Blaenllechau; R. H., Gellidogin; J. J., Ty'r-dref.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS.

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hysbys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

Y CWRDD CHWARTEROL.

Bydd y Cwrdd Chwarterol Nadolig i gael ei gynnal yn y Wig, ger Penbont-ar-Ogwy, ar y 29ain a'r 30ain o'r mis hwn. Danfonir Cerbydau i gwrdd â'r gweinidogion i Benybont prydnawn dydd Mercher, i'w cludo i'r Wig. Gobeithiwyf y bydd cymmaint o honynt yn bresenol ag a allo. "Beth sydd i'w ddeall wrth Ffydd yn yr Ysgrythyrau?" fydd pwnc y Gynnadledd.

TITUS LLOYD.

CRISTIONOGAETH UNDODAIDD,

GAN SAMUEL SHARPE.

4 tdd. **Pris 10s. y fil, 1s. 3c. y cant, 2 geiniog y dwsin.**

CYFFES FFYDD UNDODWR,

GAN JOHN PAGE HOPPS.

24 tdd. Pris naw ceiniog y dwsin, neu 3s. a 6c. y cant.

Dyma gyfleusdra i gyfeillion wneuthur rhywbeth tuag at daenu egwyddorion Undodaidd. Anfonir hwy yn rhad trwy'r post am y telerau uchod. Anfoner at The Editor of YR YMOFYNYDD, Mount Pleasant Garden, Aberdare.

RHWYMIR LLYFRAU

O bob math, yn dda, ac am brisoedd rhesymol, gan JENKIN WILLIAMS, 6, Back Mount Pleasant, Trecynon, Aberdare.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.